| GOFYNION | CAMAU | GAN BWY | ERBYN PRYD | STATWS |
|---|---|---|---|---|
| Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr 'Ystafelloedd Gofal Dwys' yn cael eu hailgynllunio er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff. Rhaid i hyn gynnwys gwella mynediad i'r cyfleusterau tŷ bach drwy'r brif ystafell gofal dwys. | Mae'r ystafelloedd gofal dwys ar wardiau Iddon, Howell ac Awen wedi eu hadnewyddu er mwyn cynnwys cyfleusterau 'en suite' heb fannau rhwymo ynddynt ac er mwyn ei gwneud mor rhwydd â phosibl eu harsylwi o'r tu allan.<br><br>Mae angen sylw ar ystafelloedd gofal dwys Osbern a Theilo er mwyn sicrhau eu bod o'r un lefel â'r rhai uchod a bydd y gwaith cyfalaf hwn yn cael ei wneud yn ystod 2013. | Philip Maliphant | 01/04/2012<br><br>01/04/2013 | Gwaith adnewyddu wedi ei gwblhau<br><br>Y gwaith angenrheidiol wedi ei gynnwys yng nghyllideb capex 2013 |
| Rhaid i'r unigolyn cofrestredig ymdrin â'r holl faterion amgylcheddol a restrir yn yr adroddiad, yn benodol:<br>• Adnewyddu'r ystafell ymlacio ar Ward Awen<br>• Gosod seddi ychwanegol a sicrhau bod y gwres yn gyson ar ward Awen<br>• Adnewyddu a glanhau ward Teilo | Mae ward Awen wedi ei hadnewyddu'n llwyr gan gynnwys yr ystafell gofal dwys a'r man gofal llai dwys, yr ystafelloedd gwely, yr ystafelloedd therapi, yr ystafell ymlacio, y rhannau a ddefnyddir yn ystod y dydd, y coridorau a swyddfa'r ward.<br>Mae'r gwaith o adnewyddu ward Teilo | | 31/05/2012<br><br>30/06/2013 | Gwaith adnewyddu wedi ei gwblhau<br><br>Gwaith i'w |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • Darparu lluniau a dodrefn meddal yn y brif lolfa ar ward Teilo<br>• Rhaid sicrhau bod system alw'r nyrsys yn gweithio'n iawn ym mhob ystafell wely<br>• Roedd angen sedd toiled yn ystafell wely 10 ar ward Treowen<br>• Darparu cynfas a 'duvet' ar gyfer gwely pob claf<br>• Darparu cyfleusterau ffôn sy'n hybu preifatrwydd ar gyfer y cleifion | wedi ei gynnwys yng nghyllideb capex 2013.<br>Gwaith adfer wedi ei wneud.<br><br>Sedd wedi ei gosod ar y toiled.<br><br>Mae set gyfan o ddillad gwely ar gael ledled yr ysbyty.<br>Mae wardiau Awen a Threowen yn parhau i fod angen sylw, a bydd y gwaith adfer yn cael ei wneud yn ystod 2013. | | 31/08/2011<br>31/08/2011<br>31/08/2011<br>30/04/2012 | gwblhau yn ystod hanner cyntaf 2013<br>Wedi ei gwblhau<br>Wedi ei gwblhau<br>Wedi ei gwblhau<br>I'w gynnwys yng nghyllideb capex 2013 |
| Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod y trefniadau o ran rheoli heintiau yn ddigonol. Dylai hyn gynnwys y system ar gyfer gwaredu dŵr budr o bwcedi mop. | Mae'r ysbyty bellach wedi penodi Nyrs â Gofal fel hyrwyddwr rheoli heintiau sy'n sicrhau bod materion rheoli heintiau yn derbyn y sylw priodol. Mae dŵr o bwcedi mop yn cael ei waredu'n briodol. | // | 31/08/2011 | |
| Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod cynllun y sefydliad yn briodol ar gyfer y dibenion y'i defnyddir ar ei gyfer. Mae'r gofyniad hwn yn benodol ynglŷn â ward Awen. | Mae'r ystafell gofal dwys ar ward Awen wedi ei hadnewyddu er mwyn cynnwys cyfleuster 'en suite' a man gofal llai dwys. Mae'r ystafell ymlacio wedi ei hadnewyddu'n briodol hefyd. | | 31/05/2012 | Wedi ei gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod pobl â chymwysterau, sgiliau a phrofiad priodol yn gweithio yn y sefydliad bob amser, a bod digon ohonynt er mwyn sicrhau iechyd a lles y cleifion. Mae angen i niferoedd y staff fod yn ddigonol er mwyn hwyluso cyfnod absenoldeb Adran 17, sicrhau bod cleifion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau a darparu therapïau chwaraeon. | Cynhaliwyd adolygiad o'r lefelau staffio ac atgyfnerthwyd niferoedd y staff yn sylweddol gan gynnwys pedwar ar ddyletswydd yn ystod y nos ar y wardiau llai a chyflwyno ail gydgysylltydd gweithgareddau ar bob ward. | | 01/01/0212 | Wedi ei gwblhau |
| Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau y cynhelir cyfarfodydd ôl-drafod ac y dysgir gwersi yn sgil cwynion, digwyddiadau a'r defnydd o ataliaeth gorfforol. | Mae pob achos o ddefnyddio ataliaeth gorfforol bellach yn cael ei werthuso a'i drafod. Mae ataliaeth gorfforol, cwynion a digwyddiadau anffafriol difrifol yn cael eu gwerthuso a'u trafod yn y cyfarfodydd misol i adolygu llywodraethu clinigol yr ysbyty. | / | 31/05/2012 | |
| Rhaid i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod yr holl ymdrechion i gynnwys y claf a theulu'r claf yn y broses cynllunio gofal yn cael eu cofnodi'n llawn. Hefyd, rhaid adolygu a diweddaru'r holl asesiadau risg yn rheolaidd. | Mae cyfranogiad y claf a'r teulu i'r broses cynllunio gofal yn cael ei gofnodi. Mae pob asesiad risg yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru. | | Ar unwaith | Parhaus |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod pob pryd bwyd yn cael ei weini ar y tymheredd cywir a'i fod o ansawdd priodol ac yn cynnig dewis i'r claf. | Mae tymheredd pob pryd bwyd yn cael ei fesur ar adeg ei weini a chedwir cofnodion am dri mis. Mae bwydlenni'r cleifion yn cael eu hadolygu'n barhaus. | | 31/08/2011 | Parhaus |